Cyngor Dinas Casnewydd

Hysbysiad Preifatrwydd

Gwasanaeth a manylion cyswllt	
Gwasanaeth:	Y Gyfraith a Rheoleiddio
Manylion Cyswllt:	Public.relations@newport.gov.uk
Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:	Tanysgrifio i Gylchlythyr E-bost Trigolion Cyngor Dinas Casnewydd

Ffynhonnell a chategorïau'r wybodaeth sy'n cael ei phrosesu

Mae'r adran hon ond yn berthnasol os cafwyd y data personol o ffynhonnell heblaw amdanoch chi (gwrthrych y data).

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi cael y categorïau canlynol o'ch data personol:

Ddim yn berthnasol.

Rydym wedi cael eich gwybodaeth gan:

Ddim yn berthnasol

Diben defnyddio eich gwybodaeth a'r sail gyfreithiol dros ei defnyddio

Yma, byddwn yn esbonio'r rheswm pam rydym wedi casglu eich data personol a'r rhesymau dros brosesu.

Ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich gwybodaeth:

We have your consent to process personal data

Rhagor o fanylion am ein sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth a diben prosesu:

Pan fyddwch yn tanysgrifio i gylchlythyr e-bost Cyngor Dinas Casnewydd, byddwn yn anfon cylchlythyr atoch, bob yn ail fis, am y newyddion diweddaraf gan yr awdurdod. Weithiau, mae'n bosibl y byddwn yn anfon e-byst ychwanegol atoch os bydd darn o newyddion pwysig neu os bydd digwyddiad rydym yn credu y bydd gennych ddiddordeb ynddo. Dim ond gyda'ch caniatâd penodol y gallwn wneud hyn. Pan fyddwch yn tanysgrifio, byddwn yn gofyn i chi am y wybodaeth bersonol ganlynol amdanoch chi er mwyn ein helpu i deilwra'r cynnwys sy'n briodol i chi;

Eich enw llawn (gorfodol)
Dyddiad Geni (nid yw'n orfodol)
Dewis iaith ar gyfer cyfathrebu dros e-bost (nid yw'n orfodol)
Cyfeiriad e-bost (Gorfodol)
Cyfeiriad llawn gan gynnwys cod post (nid yw'n orfodol)
Y gwasanaethau cyngor sydd o ddiddordeb penodol i chi.

Ni fyddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol at unrhyw ddiben arall.

Yr hawl i dynnu caniatâd yn ôl

Os ydym yn dibynnu ar eich caniatâd i brosesu eich data, mae gennych yr hawl i dynnu eich caniatâd i'r prosesu hwn yn ôl ar unrhyw adeg. I wneud hyn, cliciwch ar y ddolen dad-danysgrifio yn nhroedyn unrhyw e-bost y byddwch yn ei dderbyn gennym Fel arall, cewch chi dynnu eich cydsyniad yn ôl a pheidio â chael e-byst trwy gysylltu â public.relations@newport.gov.uk

Mae'n rhaid i chi roi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i ddarparu'r gwasanaeth, os bydd naill ai:

a) Rhwymedigaeth gytundebol i wneud hynny, neu

b) Rhwymedigaeth statudol i wneud hynny.

(Dim ond yn berthnasol os mai sail gyfreithiol ar gyfer prosesu yw cyflawni contract neu ddyletswydd gyhoeddus/ rhwymedigaeth cyflawni tasg)

Mae canlyniadau peidio â darparu'r wybodaeth fel a ganlyn:

dd/b

Data Categori Arbennig

(Dim ond yn berthnasol os yw'r data categori arbennig yn cael ei brosesu)

Weithiau byddwn yn prosesu categori arbennig y rhoddir mwy o ddiogelu iddo o dan y Ddeddf Diogelu Data. Mae hyn oherwydd yr ystyrir bod data categori arbennig yn fwy sensitif. Os ydym yn prosesu eich data categori arbennig mae angen i ni sefydlu sail gyfreithlon arall ar gyfer prosesu, ac rydym wedi amlygu hyn isod:

Ni fyddwn yn prosesu unrhyw ddata categori arbennig

Gwneud penderfyniadau/proffilio awtomatig

(Dim ond yn berthnasol os ydym yn gwneud penderfyniad awtomataidd ar destun data)

Weithiau byddwn yn defnyddio cyfrifiaduron neu dechnoleg i'n helpu i wneud penderfyniadau am y gwasanaethau rydym yn eu cynnig i chi. Isod ceir manylion o ba systemau gwneud penderfyniadau neu broffilio rydym wedi'u defnyddio a sut y gwnaed y penderfyniad:

Ni fyddwn yn defnyddio penderfyniadau na phroffilio awtomataidd o fewn y gwasanaeth

Pwy fydd yn cael mynediad at eich gwybodaeth?

Cyngor Dinas Casnewydd yw'r rheolwr data a'r Swyddog Diogelu Data yw'r:

Rheolwr Gwasanaethau Digidol
E-bost: Information.management@newport.gov.uk
Ffôn: 01633 656656

Mae'n bosibl y bydd rheolwyr data eraill yn gyfrifol am eich gwybodaeth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Cysylltwch â'r gwasanaeth i gael rhagor o wybodaeth.

Prif ddefnyddwyr eich gwybodaeth bersonol yw:

Tîm Cysylltiadau Cyhoeddus Cyngor Dinas Casnewydd

Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth o fewn Cyngor Dinas Casnewydd:

Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth gydag unrhyw adran arall

Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth gyda sefydliadau allanol eraill:

Ni chaiff y wybodaeth hon ei rhannu ag unrhyw sefydliad arall.

Weithiau byddwn yn defnyddio cymorth arbenigol sefydliadau/cwmnïau eraill i brosesu eich data ar ein rhan ni. Adwaenir y cwmnïau hyn fel 'proseswyr data'. Wrth brosesu eich data, byddwn yn defnyddio'r proseswyr data canlynol:

Ni fyddwn yn defnyddio proseswyr data.

Manylion unrhyw drosglwyddiadau rhyngwladol eich gwybodaeth bersonol:

(os yw'n berthnasol)

Ni fyddwn yn trosglwyddo eich gwybodaeth i unrhyw wlad arall

Ceisiadau am wybodaeth

Gall yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Bro Morgannwg fod yn destun ceisiadau dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a'r Ddeddf Diogelu Data.

Os hoffech ofyn am gopi o'r wybodaeth bersonol rydym yn ei chadw amdanoch, gallwch ofyn am gael copi o'n **Ffurflen Gais am Wybodaeth Bersonol** yma:

Information.management@newport.gov.uk

Os hoffech chi gyflwyno Cais Rhyddid Gwybodaeth/Gwybodaeth Amgylcheddol i ni, gallwch gyflwyno eich cais i ni yma:

http://www.newport.gov.uk/cy/Council-Democracy/Transparency/Freedom-of-information.aspx

Eich Hawliau

Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i chi. Sylwer nad yw'r holl hawliau hyn yn absoliwt a bydd angen i ni ystyried eich cais ar ôl ei dderbyn. Mae gennych yr hawl i ofyn am:

a) gael eich data wedi'i gywiro os yw'n anghywir neu'n anghyflawn;
b) dileu eich data;
c) cyfyngu ar brosesu eich data;
d) arfer eich hawl i gludadwyedd data;
e) gwrthwynebu'r prosesu at ddibenion marchnata uniongyrchol, proffilio a gwneud penderfyniadau awtomataidd.

Ym mhob achos, cyflwynwch eich cais i:

Information.management@newport.gov.uk

Y Weithdrefn Gwyno
Os ydych yn anhapus â'r ffordd y mae Cyngor Dinas Casnewydd yn defnyddio eich data, mae gennych hawl i gwyno i ni. Os hoffech chi wneud hyn, cysylltwch â ni drwy anfon e-bost i'r cyfeiriad hwn;
Information.management@newport.gov.uk

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad eich cwyn, gallwch wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Yn gyffredinol, ni all Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wneud penderfyniad oni bai eich bod wedi cyflawni gweithdrefn gwyno'r Cyngor. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,
Wycliffe House, Water Lane,
Wilmslow,
Swydd Gaerlleon
SK9 5AF.

Am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

Manylion y cyfnod cadw

Byddwn yn cadw eich gwybodaeth am ba hyd bynnag y mae eich tanysgrifiad yn weithredol. Os byddwch yn dewis dad-danysgrifio, byddwn yn cadw eich gwybodaeth am flwyddyn ac ar ôl hynny, byddwn yn dileu eich gwybodaeth bersonol o'n cofnodion.